

KENRICK (TEULU), Wynn Hall, sir Ddinbych, a Bron Clydwr, Sir Feirionnydd

Y mae Kenriciaid dwyrain sir Ddinbych a'r goror yn olrhain eu tras i Cynwrig ap Rhiwallon (bu farw 1074) a hawliodd arglwyddiaeth Maelor Gymraeg wedi ei hadennill gan y Cymry yn yr 11eg ganrif; credir mai ar ôl ei enw ef y cafodd trefgordd Cristionydd Kenrick (gerllaw Rhiwabon) ei henw. Bu i'r gangen a ymsefydlodd yng nghymdogaeth Wrecsam gyswllt agos â thwf Anghydfurfiaeth yno ac yn Sir Feirionnydd yn yr 17eg ganrif a'r 18fed ganrif.

EDWARD KENRICK (bu farw 1741), Bron Clydwr,

mab hynaf Samuel Kenrick (bu farw 1716), Fawnog, Bersham, ac y Edward Kenrick (bu farw 1693), Gwersyllt. Buasai'r tad a'r taid yn perthyn i'r ' Old Meeting ' - y gynulleidfa a sefydlwyd yn y lle cyntaf gan [Morgan Llwyd](#) yn Wrecsam - a hwy a ddarparasai'r adeilad yr addolai'r gynulleidfa ynddo fel rheol o adeg ' Declaration of Indulgence ' 1672 (ac, efallai, cyn hynny) hyd yr adeiladwyd capel parhaol yn 1762; eithr ymunodd Edward Kenrick â'r ' New Meeting ' (Presbyteraid) pan ymrannodd o'r ' Old ' yn 1691, a rhoes gartref iddo dros dymor hyd nes y cwplawyd y capel parhaol c. 1700. Priododd Susannah, merch ac aeres [Hugh Owen](#), Bron Clydwr, ac etifeddodd y stad honno yn 1700 a chyda'r etifeddiaeth ofalaeth fugeiliol gyffredinol ei dad-yng-nghyfraith dros Anghydfurfwr sir Feirionnydd - Independiaid gan mwyaf. Ordeiniwyd ef yn Wrecsam yn 1702, yr un pryd â [John Evans](#) (c. 1680 - 1730), gan [Matthew Henry](#), [James Owen](#), â gweinidogion Presbyteraid eraill. Tua 1715 ymsefydlodd yn weinidog yn y Bala, wedi hynny yn Llanuwchllyn (1739), lle y daeth ei fab JOHN KENRICK, Bron Clydwr, yn ymddiriedolwr y capel yr oeddid newydd ei adeiladu (1745) a'r ' New Meeting ' yn Wrecsam (1748); dywedir, fodd bynnag, iddo gydymffurfio yn y diwedd. Daeth llinach Kenriciaid Bron Clydwr i'w therfyn gyda HUGH OWEN KENRICK (1785 - 1821).

JOHN KENRICK I (1684 - 1745), Wynn Hall,

mab iau Samuel Kenrick (bu farw 1716). Ordeiniwyd ef yn Nantwich gan [Matthew Henry](#), ac eraill, 21 Hydref 1707, a bu'n fugail y ' New Meeting ' yn Wrecsam o'r adeg honno hyd ei farw. Yn ystod ei ofalaeth ef y llosgwyd y capel, 15-30 Gorffennaf 1715, gan haid o bleidwyr James Stuart ('Jacobites') yn Wrecsam; rhoes Kenrick fenthyg arian tuag at yr atgyweirio, a thalwyd yr arian yn ôl iddo gan y Llywodraeth (1717). Yn 1723 priododd Sarah, gweddw John Taylor, Esclusham, ac yres Capten William Wynn (bu farw 1692), Wynn Hall, a etifeddodd ef trwyddi hi. Buasai ei thaid hi, ac, y mae'n debyg, taid ei g r cyntaf, yn swyddogion ym myddin y Pengryniaid, yn aelodau o gynulleidfa [Morgan Llwyd](#), ac yn gomisiynwyr o dan Ddeddf Taenu 1649. Yr oedd John Kenrick yn ymddiriedolwr hefyd o dan ewyllys [Dr. Daniel Williams](#) (1643? - 1716), eithr yn wahanol i [Williams](#) datblygodd gred mewn Ariaeth yn ddiweddarach yn ei oes. Parhaodd ei frawd, DANIEL KENRICK, g r yr oedd ganddo fusnes siandler yn Wrecsam, yn yr ' Old Meeting,' a daeth yn ymddiriedolwr gwaddoliadau'r eglwys honno yn 1747.

Am chwe mab JOHN KENRICK I - yr oedd JOHN KENRICK II (aer Wynn Hall; bu farw 1803) a WILLIAM KENRICK (gof pres yn Wrecsam; bu farw 1793) ill dau yn ymddiriedolwyr y ' New Meeting ' (1783); yr oedd John (a briododd aelod o hen deulu Anghydfurfwr yn Sir Drefaldwyn, sef [Quarrell](#), Llanfyllin) yn ymddiriedolwr yr Hen Gapel yn Llanuwchllyn hefyd. Bu William yn gyd-ddiffynnydd yn y cyngaws yn y sesiwn fawr yn Wrecsam (18 Mawrth 1788) pan oedd y ' New Meeting ' yn dadlau ei hawl (yn erbyn yr ' Old Meeting') i ddefnyddio'r gladdfa a adawyd yn ei ewyllys gan Daniel Lloyd (bu farw 1655) i gynulleidfa [Morgan Llwyd](#). Brawd arall oedd SAMUEL KENRICK, Undodwr, ieithydd da, g r a drafaeliodd lawer fel athro mewn teulu ac a gyfarfu â Rousseau a Voltaire yn Ffrainc; ymunodd ef gyda'i frawd Edward i sefydlu'r ' Old Bank ' yn Bewdley (1776).

Aer nesaf Wynn Hall oedd JOHN KENRICK III (1753 - 1823), a fuasai cyn hynny yn farsiadwr caws yn Whitchurch; priododd ef or-or-wyres [Matthew Henry](#), ac er mai Undodwr ydoedd daeth yn ymddiriedolwr y ' New Meeting,' Wrecsam (1797 a 1799), a'r Hen Gapel, Llanuwchllyn (1823); yn 1797 daeth yn ymddiriedolwr y gronfa a gymynroddwyd yn 1728 gan chwaer [Daniel Williams](#) er cymorth gweinidogion Presbyteraid. Yngl n â'r ' New Meeting ' fe'i dilynwyd fel ymddiriedolwr (1834 a 1843) gan ei aer WILLIAM KENRICK (1794 - 1865), g r y mae llinell Wynn Hall yn parhau drwyddo. Etifeddwyd busnes siandler Daniel Kenrick yn Wrecsam gan ei or-nai JAMES KENRICK (1757 - 1824), brawd John Kenrick III; o dano ef daeth y busnes yn ariandy (c. 1800-48), ei bartner yn r o Manchester yn 1824; trosglwyddodd ei ran ef yn y busnes i'w nith SARAH KENRICK. Yr oedd yntau hefyd yn ymddiriedolwr y ' New Meeting ' ac yn ddiffynnydd yn achos y gladdfa yn 1788. Bu brawd arall, TIMOTHY KENRICK (1759 - 1804), yn athro yn academi Anghydfurfiol Daventry (1779-84) gan ddyfod yn fugail eglwys Bresbyteraid yn Exeter (1784-1804) er ei fod yn Undodwr yn ei olygiadau personol ac yn dad i ddau fab a aeth i weinidogaeth yr Undodwyr yn Lloegr.

KENRICK, SAMUEL LLEWELYN (1848 - 1933)

Wynn Hall, Rhiwabon, sir Ddinbych, mab William Kenrick (1798 - 1865) ac y trydydd [John Kenrick](#), Wynn Hall.

Addysgwyd Llewelyn Kenrick (anaml y defnyddiai ei enw cyntaf) yn ysgol ramadeg Rhiwabon. Daeth yn gyfreithiwr yn Rhiwabon, yn glerc i ustusiaid heddwch mainc Rhiwabon, 1896-1933, a bu'n grwner adran ddwyreiniol sir Ddinbych o 1906 hyd ei farwolaeth. Pan oedd yn ddyd ieuanc yr oedd yn flaenllaw ymysg y rhai a chwaraeai bêl droed. Efe a ffurfiodd y ' Football Association of Wales ' yn nhyrnor 1875-6; cyfeiriodd Syr Evan Morris at hyn pan roddwyd y cwpan Cymreig cyntaf

('the first Welsh cup') i'r enillwyr yn 1879. Enillasid y cwpan ddwy flynedd yn gynt, ond y pryd hwnnw nid oedd cwpan i'w gael gan y 'Football Association of Wales' ieuanc. Kenrick a drefnodd yr ornest ryng-genedlaethol gyntaf rhwng Cymru a'r Alban. Yn Glasgow, ar 25 Mawrth 1876, y bu'r chwarae, ac yr oedd Kenrick yn chwarae 'fullback' dros Gymru yn yr ornest honno; bu'n chwarae dros Gymru bedair gwaith wedi hynny. Yr oedd yn aelod o'r tîm cyntaf a orfu ar Loegr yn Blackburn, 1881. Bu'n chwarae dros y Shropshire Wanderers ac yn gaptu tîm enwog y Druids. Efe oedd llywydd cyntaf, ac ysgrifennydd mygedol, y 'Football Association of Wales,' a bu'n aelod o gyngor yr Association am gyfnod hir. Priododd ferch y Parch. A. L. Taylor, prifathro ysgol ramadeg Rhiwabon; ni bu plant o'r briodas. Bu farw 29 Mai 1933 a chladdwyd ef yn Rhiwabon.

Awduron

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

George Geoffrey Lerry

Ffynonellau

A. N. Palmer, *A history of the older nonconformity of Wrexham and its neighbourhood being the third part of 'A history of the town and parish of Wrexham'* (1888), 1888

id., *A history of ancient tenures of land in the marches of north Wales: containing notes on the common and demesne lands of the lordship of Bromfield and of the parts of Denbighshire and Flintshire adjoining, and suggestions for the identification of such lands elsewhere together with an account of the rise of the manorial system in the same districts* (Wrecsam 1885), 1885, 87-8

R. T. Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn* (1937), 1937

History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog, iii, 319 ac ymlaen
NLW MS 11439, 26

A. H. Dodd, *The Industrial Revolution in North Wales* (Caerdydd 1933), 1933, 318

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733754](https://www.wikidata.org/wiki/Q20733754)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

